Llwybr 2 Meini Prawf Asesu

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer Llwybr 2 i'w gweld isod. Argymhellir yn gryf fod ymgeiswyr yn eu darllen yn drylwyr cyn dechrau cais.

Meini prawf asesu ar gyfer Llwybr 2 Taith – Partneriaeth a chydweithio strategol	
Perthnasedd ac ansawdd amcanion y prosiect a chanlyniadau a gynllunnir (uchafswm sgôr 65 pwynt)	• Dangosir i ba raddau y mae'r prosiect arfaethedig yn mynd i'r afael â mater penodol neu flaenoriaeth a gydnabyddir gan y sector yng Nghymru o fewn un o themâu Llwybr Taith 2 mewn modd clir a diriaethol. • Y graddau y mae'r prosiect arfaethedig yn dangos gwerth ychwanegol clir i'r sefydliad(au) a'r sector(au). • Y graddau y mae allbwn y prosiect arfaethedig yn ddiriaethol, wedi'i lunio'n dda, yn fesuradwy ac o werth i sefydliadau eraill a'r sector(au), yn ogystal â bod yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y prosiect, y sector a'r gynulleidfa. • Dangosir perthnasedd a gwerth pob partner a enwir (Rhyngwladol ac yng Nghymru) yn glir, gyda rhesymu clir dros ddewis y partneriaid dan sylw. Yn benodol, mae'r cais yn dangos pwysigrwydd y partner(iaid) rhyngwladol a'r gwerth ychwanegol a geir drwy'r cydweithredu rhywngwladol hwn. • Mae'r sefydliad sy'n gwneud cais wedi dangos tystiolaeth bod ganddo ddigon o gapasiti gweinyddol cymesur â'r prosiect arfaethedig. Mae'r cynnig yn dangos dull ystyriol a phriodol ar gyfer rheoli'r prosiect o ddydd i ddydd, rheoli ariannol, a darparu cymorth/adnoddau i ddatblygu allbwn y prosiect. • Mae'r cais yn amlinellu ymrwymiad clir a chynlluniau cydlynol i sicrhau bod y prosiect yn gynhwysol a hygyrch, gan gynnwys yn y gefnogaeth y bydd yn ei rhoi i gyfranogwyr unigol (lle bo'n berthnasol).

	• Mae'r sefydliad sy'n gwneud cais yn dangos bod ganddo fesurau diogelu / dyletswydd gofal priodol ar gyfer yr holl weithgareddau arfaethedig. • Mae'r mesurau a gynigir i fonitro gweithgareddau a chynnydd y prosiect a'r cynlluniau i werthuso llwyddiant ei ganlyniadau yn briodol ac yn realistig. • Mae'r cais yn dangos ei bod yn werth yr arian ac yn darparu disgrifiad a rhesymeg glir o'r cyllid a ofynnir amdano o fewn pob categori gweithgaredd.
Ansawdd ac amcanion gweithgareddau arfaethedig (hyd at 35 o bwyntiau)	• Mae gweithgareddau'r prosiect wedi'u nodi a'u diffinio'n glir, ac yn diwallu anghenion a nodwyd. • Mae'r gweithgareddau arfaethedig yn dangos dull realistig o gyflawni amcanion cyffredinol y prosiect. • Ceir eglurhad a rhesymeg glir am yr holl weithgareddau sydd wedi'u cynllunio a nodir dan weithgarwch 'gwaith prosiect'. • Mae rhesymeg glir dros lefel y cyllid y gofynnir amdano ac mae'n gymesur â graddfa'r prosiect. • Mae'r cynlluniau i ledaenu allbwn y prosiect wedi'u nodi'n glir, yn briodol i'r prosiect, y gynulleidfa a'r sector, ac yn sicrhau y bydd canlyniadau'r prosiect yn cael eu rhannu â chynulleidfa eang yng Nghymru (ac yn rhyngwladol os yn berthnasol). • Pan fydd gweithgareddau symudedd wedi'u cynllunio, darperir esboniad clir am sut y bydd y rhain yn gwneud cyfraniad allweddol i ddatblygiad y prosiect, ac mae'r dewis o gyfranogwyr yn briodol ac yn berthnasol. • Os na fydd symudedd corfforol, neu os bydd nifer isel o symudedd mewn cais, darperir rhesymeg a thystiolaeth glir am sut bydd y bartneriaeth yn datblygu a sut bydd yr allbwn yn cael ei greu.